O dud. 11

GAN mlynedd yn ôl cynhaliwyd Eisteddfod Daleithiol Gwynedd yn y dref. Y tro yma ni fu mor lwyddiannus o safbwynt cyllid o leiaf. Rhestrodd Alltud Eifion amrywiol resymau fu'n gyfrifol am hyn. Nid oedd yr hin yn ffafriol i gychwyn ac anfantais pellach oedd y ffaith bod eisteddfod Llundain 1887 newydd ei chynnal ac un arall i ddilyn yn fuan yn Llandudno.

Rhagwelwyd yn yr adroddiad o'r eisteddfod yn yr Herald Cymraeg na fyddai'r derbyniadau yn ddigonol i gyfarfod â'r treuliau. Er derbyn cymorth gan 'foneddigion haelfrydig' bu raid 'syrthio ar y rhwymedwyr' yn ôl Alltud Eifion.

Diddorol fyddai gwybod faint y golled. Yn ôl y Faner, 'roedd angen codi £1500 ac mae'n debyg fod bil sylweddol i dalu am oleuo'r pafiliwn gyda thrydan, pinacl darganfyddiadau oes y cynnydd.

Erbyn 1887 yr oedd cystadleuaeth y bandiau pres wedi dod yn rhan anhepgorol o'r eisteddfodau. Ym Mhorthmadog cododd 'cynnwrf annisgrifiadwy' pan ddarganfuwyd fod un o'r pedwar band i gystadlu yn cynnwys chwaraewr cornet proffesiynol.

Dyma ffrae a gododd ar sawl achlysur gan achosi mwy o ymgecru a bytheirio ymysg cystadleuwyr nag yn unrhyw adran arall yn eisteddfodau'r cyfod. Bu raid galw cyfarfod brys o'r pwyllgor gweithredol a'i ddyfarniad oedd na ddylid caniatau i fand y Gweunydd o Ffestiniog gystadlu.

Band Llan Ffestiniog a orfu a bodlonwyd y bandwyr hyd yr ymdaro nesaf

* * *

PAN FETHODD y botel win â thorri ar drwyn y *Gestiana* ddiwrnod ei lansio yn 1913 cododd ochenaid o siom a thristwch yn reddfol o blith y dyrfa. Gwireddwyd eu hofnau. Collwyd y *Gestiana* y llong olaf i'w hadeiladu yn y dref ar ei mordaith gyntaf.

O fewn llai na blwyddyn torrodd y rhyfel mawr gan roi terfyn ar y fasnach lechi yr oedd ffyniant y dref mor ddibynnol arni. Yr oedd cyfnod y cynnydd a'r datblygu trosodd. Trai y llanw masnachol a diwydiannol a wynebai'r trigolion yn awr. Yn anochel yr un fu'r patrwm mewn crefydd a diwylliant.

Eto rhaid oedd gochel rhag gorbwysleisio'r dirywiad cymdeithasol yn hanes Porthmadog yn chwarter cyntaf y ganrif hon. Parhai'r dref i fod yn ganolfan naturiol gymeriadau unigryw fel Carneddog a Bob Owen.

Bob dydd Gwener tu allan i un o siopau'r stryd fawr sefylliai Carneddog er mwyn cyfarfod ei gydnabod a rhoi'r byd llenyddol ac eisteddfodol yn ei le. Galwai Bob Owen yng Nghlwb Rhyddfrydwyr ple'r enillai Tryfanwy, y bardd oedd bron yn ddall a byddar, ychydig geiniogau am farcio'r sgôr i'r chwaraewyr biliard, wedi iddynt fynegi maint y rhediad iddo ar gledr ei law. 'Roedd y tri ohonynt yn gyfeilion i fardd enwocaf y dref.

Mae'n drueni nad ysgogodd yr awen Eifion Wyn mwy nag unrhyw un arall o feirdd Porthmadog i ganu am eu tref enedigol yn ystod eu cyfnod. Yn anffodus nid oedd canu trefol yn addas i'r cywair telynegol y rhagorai Eifion Wyn ynddo.

Ysbrydolwyd ef yn y wlad oddi amgylch i gyfansoddi telynegion y misoedd. Cyrhaeddodd yr uchelfannau yn rhai o'i ganeuon ac ystyria O.M. Edwards fod y telynegion i Men 'yn berffaith o ran iaith, dychymyg, chwaeth a theimlad.'

* * *

EFALLAI ei bod yn rhan o'r confensiwn telynegol fod y bardd yn canu i farwolaeth ei fun fel ag y gwnaeth yn *Dan dy Lewyrch, Leuad Ieuanc* ond derbyniwyd erioed i Eifion Wyn briodi ei Fen a mwynhau blynyddoedd o ddedwyddwch yn ei chwmni.

Rhaid cydnabod y drwydded farddol ond anodd yw cysoni'r gân yma gyda gweddill y gyfres. Yr unig un y gellir ei phriodoli yn bendant i Men ei wraig yw *Yn yr Ing* a gyfansoddwyd yn 1922 yn ôl Cofiant Peredur Wyn Williams i'w dad.

Yr oedd Eifon Wyn yn gwaelu erbyn hyn a gwerthfawrogiad yw'r gân o ofal Men drosto. Fe'i cyhoeddwyd yn *Caniadau'r Allt* yn naturiol oherwydd ei bod cymaint yn ddiweddarach na'r caneuon yn *Telynegion Maes a Môr*.

Credaf fod cerdd marwolaeth Men, ac o bosibl weddill y gyfres wedi eu cyfansoddi i Fen wahanol. Ni fu farw ond daeth y berthynas ryngddi hi ag Eifion Wyn i ben. Mae'n amlwg o'r cofiant mai llythyru ag Annie Williams oedd yn gweini ym Manceinion a wnai Eifion Wyn am flynyddoedd. Roedd wedi ymserchu â merch arall ym Mhorthmadog, fel y dengys y cerdyn a anfonodd ati yn 1903. Mae'n arwyddocaol ei fod yn defnyddio delwedd yr aderyn di-gymar i ddisgrifio ei hun wedi ymadawiad Men yn y delyneg *Dan dy Lewyrch* sydd yn adleisio'r pennill o'i gân i 'serch' a gynhwysodd ar ei gerdyn.

Wedi marwolaeth symbolaidd y Fen hon, cynhesodd cariad y bardd at yr eneth a adnabyddai o ddyddiau plentyndod a bu'n llythyru â hi. Priodwyd hwy yn1907.

Mae'r cerdyn gwreiddiol ym meddiant wyres y Fen a'i gadawodd. Yn 1907 y priododd hithau a bu fyw am oes faith. Yn wahanol i Annie Williams nad oedd yn ôl tystiolaeth ei mab yn gyfarwydd â llenyddiaeth a barddoniaeth, 'roedd Men Porthmadog yn dra llengar ac ymhen blynyddoedd fe'i derbyniwyd yn aelod o'r Orsedd.

Y ffaith drawiadol yw mai M.E.N. oedd llythrennau cyntaf ei henw - 'Tair llythyren enw Men' a welodd y bardd ar y garreg fedd yn ei ddychymyg.

Cefais y manylion hyn gan Mrs. Myfanwy Morris, chwilotwraig ddihafal i hanes y dref. Rwy'n ddiolchgar iddi hefyd am gael atgynhyrchu'r copi o'r cerdyn sydd yn ei meddiant. Y hi yn anad neb a ddylai ddatgelu pwy ydoedd Men ac fe wnaiff cyn hir gobeithiaf. Dichon bod rhai o'r trigolion hŷn yn gyfarwydd â Men a'i hanes.

* * *

YN YSTOD dyddiau blin yr ail ryfel byd pan nad ymddangosai'r dyfodol yn obeithiol i Borthmadog namyn unman arall, cyfarfu criw bychan yn y dref er mwyn sefydlu cymdeithas lenyddol/ddiwylliannol.

Dyma endigaeth Clwb y Garreg Wen, y sefydliad a estynnodd y gwahoddiad i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â'r dref eleni ac sydd yn cynnal y traddodiad ym Mhorthmadog.

Yn 1975 cyhoeddodd y Clwb gyfrol deyrnged i bedwar o'r hoelion wyth, William Rowland, J.T. Jones, John O. John a J. Watkin Jones. Er mor glodwiw fu gweithgarwch yr aelodau presennol, rwy'n sicr y cytunem y byddai gan y pedwar gyfraniad nodedig i'w wneud i Eisteddfod Bro Madog.

Ysywaeth John Watkin Jones yn unig a erys o'r dynion y bu 'sôn amdanynt' ac ymfudodd yntau erbyn hyn.

Caiff Alltud Eifion y gair olaf. Yn dilyn siom ariannol 1881 ei sylw oedd "y bydd raid i'r oes hon fyned heibio cyn y cynhesa'r ardal at eisteddfod ynrhagor". Ganrif yn ddiweddarach daeth y cyfle i Borthmadog ail-fyw peth o ramant y gorffennol.

NODYN: Carwn ddatgan fy niolch diffuant i lu o gyfeillion a'm cynorthwyodd gyda'r hanes yma. Diolch yn arbennig i Miss Mary W. Lloyd, Mrs. Myfanwy Morris, Mrs. Lena Thomas, a Mr John Rees Jones, Porthmadog, Mrs. K. Davies, Penygroes a Mr. Ieuan Davies, Cricieth am gael benthyg llawysgrifau a chyfrolau defnyddiol.

# Dug Sussex a'r Hen Salmau

Gan Brynley F. Roberts

Y MAE'R hanes a rydd D Tecwyn Lloyd yn *Y Casglwr* Mawrth 1987 am Ddug Sussex yn gweld cyfieithiad Cymraeg o Lyfr y Salmau mewn llawysgrif yn Ysgol Amwythig yn dwyn ar gof yr hyn a ddywed yr Esgob Richard Davies yn ei 'Epistol at y Cembru' yn Nhestament Newydd 1567, ei fod yn cofio gweld, pan oedd yn fachgen, bump llyfr Moesen yn Gymraeg o fewn tŷ ewythr iddo 'oedd ŵr dysgedig', ond nid oedd neb yn ystyried y llyfr nac yn prisio arno. Yn ôl William Salesbury, Gruffydd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan y bardd oedd yr ewythr hwnnw.

Prin er hynny mai cyfieithiad cynnar o'r pump llyfr oedd y llawysgrif a welodd yr Esgob, eithr yn hytrach fel y dadleuodd yr Athro Thomas Jones, gopi o'r testun a elwir *Y Bibyl Ynghymraec* ac a gyhoeddwyd ganddo ef yn 1940.

Yr un math o gyfeirio anfanwl sydd wrth wraidd darganfyddiad cyffrous ond camarweiniol Dug Sussex yn 1829. Yr hyn a welodd yn Ysgol Amwythig, mae'n ddiau gennyf, oedd y llawysgrif sy'n cynnwys copi o'r cyfieithiad Cymraeg o'r Gwasanaeth er anrhydedd y Forwyn Fair, sef *Gwassanaeth Meir.*

Un o hoff wasanaethau gwŷr lleyg oedd hwn ac yn ei ffurf Ladin i ddechrau, ac yna mewn fersiynau Saesneg, daeth yn sail ac yn rhan anhepgor o'r llyfrau defosiwn preifat hynny a elwir yn 'primers'. Rhennir y gwasanaeth yn Oriau litwrgïaidd, a chynnwys canolog pob Awr yw nifer o salmau. Dyma'r salmau, 28 ohonynt, a welodd y Dug.

Mae'n debyg i rywun yn yr Ysgol esbonio iddo beth oedd yr hyn a welai, ond wrth gofnodi a throsglwyddo'r wybodaeth newidiodd y disgrifiad ryw gymaint nes esgor ar un arall o'r rhith-lyfrau hynny sy'n gwneud catalogau a rhestri o lyfrau yn bethau mor ddiddorol.

Llawysgrif Ysgol Amwythig XI yw hon, a grwydrodd i'r Ysgol o Forgannwg yn ail hanner y 18fed ganrif lle y buasai gynt yn llyfrgell yr enwog Thomas Wilkins. Tua throad y 15fed ganrif y copïwyd hi. Dyma ran o'r cyfieithiad o salm 19:

*Gogoniant yr Arglwydd a ddatgan y nefoedd,*
*A'r ffurfafen a ddengys ei ddwylaw weithredoedd.*
*Dydd i ddydd a ddiguddia gair diwyd*
*A'r nos a ddengys i'r nos gelfyddyd.*

Cyhoeddwyd y gwasanaeth gan Wasg y Brifysgol yn 1951.